WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol – **Cyngor Caerdydd**


Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1827A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Caerdydd fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol Cymru 2009.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Phil Pugh, Sara-Jane Byrne a Jon Martin dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw bryderon mawr gennym ynghylch cydnerthedd ariannol y Cyngor. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn dal i wynebu heriau ariannol sylweddol dros y tymor canolig o ystyried lefel yr arbedion sy'n ofynnol, ac mae angen i'r Cyngor fod â mwy o ffocws ar sut y bydd yn cau'r bwlch dros y tymor canolig, gan gynnwys gwella'r modd y mae'n cynllunio arbedion.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw bryderon mawr gennym ynghylch cydnerthedd ariannol y Cyngor. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn dal i wynebu heriau ariannol sylweddol dros y tymor canolig o ystyried lefel yr arbedion sy'n ofynnol, ac mae angen i'r Cyngor fod â mwy o ffocws ar sut y bydd yn cau'r bwlch dros y tymor canolig, gan gynnwys gwella'r modd y mae'n cynllunio arbedion 7

Mae gan y Cyngor gynllun ariannol tymor canolig sy'n seiliedig ar dybiaethau rhesymol ond mae angen iddo ystyried sut y mae'n mynd i gau ei fwlch ariannu tymor hwy, gan gynnwys cryfhau'r cysylltiadau rhwng ei raglen drawsnewid a'i gynllun ariannol tymor canolig 7

Ar y cyfan, mae'r Cyngor wedi rheoli ei wariant o fewn y gyllideb ond ceir patrwm o orwario mewn rhai meysydd gwasanaeth 10

Mae gan y Cyngor hanes o gyflawni'r mwyafrif o'i arbedion ar y cyfan, ond bydd eu cyflawni'n dod yn fwy a mwy o her yn y dyfodol ac mae angen i'r Cyngor gryfhau ei broses cynllunio arbedion 11

Nid yw'r Cyngor wedi gwneud unrhyw ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i ariannu ei gyllideb refeniw ac mae ei lefel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy wedi cynyddu ar y cyfan dros amser 12

Mae cyfraddau casglu'r dreth gyngor wedi gwella ar y cyfan dros y blynyddoedd diwethaf 13

Mae statws prifddinas y Cyngor a'i raglen gyfalaf fawr yn golygu bod ganddo lefel gymharol uchel o fenthyciadau 14

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Roedd y prosiect yn ceisio asesu cynaliadwyedd sefyllfa ariannol cynghorau yn y tymor byr a chanolig.

2 Roedd hyn yn cynnwys ffocws ar strategaeth ariannol pob cyngor yn ogystal ag adolygu 'dangosyddion' ariannol o sefyllfa ariannol pob cyngor mewn perthynas â'r canlynol:

- Perfformiad yn erbyn y gyllideb
- Cyflawni cynlluniau arbedion
- Defnyddio cronfeydd wrth gefn
- Y dreth gyngor
- Benthyca

Arddangosyn 1: ynglŷn â'r Cyngor [ffynonellau: datganiad cyfrifon 2018-19 a chyllideb 2019-20]

Mae'r arddangosyn hwn yn nodi peth gwybodaeth gefndir am gyllideb refeniw net y Cyngor, nifer y staff y mae'n eu cyflogi a gwerth ei asedau sefydlog



**Roedd cyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2019-20 yn £623.589m**



**Mae'r Cyngor yn cyflogi tua 11,994 o bobl (5344 o gyflogeion CagALI a 6600 o gyflogeion mewn ysgolion)**




**Roedd asedau Peiriannau, Eiddo ac Offer ac Eiddo Buddsoddi'r Cyngor ar 31 Mawrth 2019 yn £1,867m**

3 Fe gynhaliom ni'r asesiad hwn am ein bod wedi adnabod cynaliadwyedd ariannol fel risg i allu cynghorau i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio adnoddau. Yn rhannol, cafodd hyn ei oleuo gan brofiadau diweddar rhai cynghorau yn Lloegr, ein gwybodaeth am y sefyllfa ariannol mewn cynghorau yng Nghymru, a'r duedd gyffredinol bod adnoddau ar gyfer llywodraeth leol yn lleihau ar y cyd â galw cynyddol am rai gwasanaethau.

Arddangosyn 2: ffynonellau refeniw'r Cyngor – ffynhonnell – hunanasesiad cynaliadwyedd ariannol y Cyngor

Mae'r siart cylch isod yn dangos faint o arian a gafodd y Cyngor o wahanol ffynonellau ariannu yn ystod 2018-19




4 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Gorffennaf 2019 a mis Rhagfyr 2019.

## Yr hyn a ganfuom

5 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn: Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw bryderon mawr gennym ynghylch cydnerthedd ariannol y Cyngor. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn dal i wynebu heriau ariannol sylweddol dros y tymor canolig o ystyried lefel yr arbedion sy'n ofynnol, ac mae angen i'r Cyngor fod â mwy o ffocws ar sut y bydd yn cau'r bwlch dros y tymor canolig, gan gynnwys gwella'r modd y mae'n cynllunio arbedion.

6 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Mae gan y Cyngor gynllun ariannol tymor canolig sy'n seiliedig ar dybiaethau rhesymol ond mae angen iddo ystyried sut y mae'n mynd i gau ei fwlch ariannu tymor hwy, gan gynnwys cryfhau'r cysylltiadau rhwng ei raglen drawsnewid a'i gynllun ariannol tymor canolig.
- Ar y cyfan, mae'r Cyngor wedi rheoli ei wariant o fewn y gyllideb ond ceir patrwm o orwario mewn rhai meysydd gwasanaeth

- Mae gan y Cyngor hanes o gyflawni'r mwyafrif o'i arbedion ar y cyfan, ond bydd eu cyflawni'n dod yn fwy a mwy o her yn y dyfodol ac mae angen i'r Cyngor gryfhau ei broses cynllunio arbedion.
- Nid yw'r Cyngor wedi gwneud unrhyw ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i ariannu ei gyllideb refeniw ac mae ei lefel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy wedi cynyddu ar y cyfan dros amser.
- Mae cyfraddau casglu'r dreth gyngor wedi gwella ar y cyfan dros y blynyddoedd diwethaf.
- Mae statws prifddinas y Cyngor a'i raglen gyfalaf fawr yn golygu bod ganddo lefel gymharol uchel o fenthyciadau.

# Adroddiad manwl

## Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw bryderon mawr gennym ynghylch cydnerthedd ariannol y Cyngor. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn dal i wynebu heriau ariannol sylweddol dros y tymor canolig o ystyried lefel yr arbedion sy'n ofynnol, ac mae angen i'r Cyngor fod â mwy o ffocws ar sut y bydd yn cau'r bwlch dros y tymor canolig, gan gynnwys gwella'r modd y mae'n cynllunio arbedion

### Mae gan y Cyngor gynllun ariannol tymor canolig sy'n seiliedig ar dybiaethau rhesymol ond mae angen iddo ystyried sut y mae'n mynd i gau ei fwlch ariannu tymor hwy, gan gynnwys cryfhau'r cysylltiadau rhwng ei raglen drawsnewid a'i gynllun ariannol tymor canolig

#### Pam fod cynllunio ariannol strategol yn bwysig

7 Mae strategaeth ariannol eglur a chadarn yn bwysig i adnabod y lefel debygol o gyllid sydd ar gael i gyngor, yn ogystal â lefel ddisgwyliedig y galw am wasanaethau a chost eu darparu. O ystyried y pwysau o ran cyllid a fu'n ddiweddar ac a ragwelir ar gyfer yr holl gynghorau mae hefyd yn bwysig nodi sut y mae'n bwriadu ymateb i'r pwysau hynny, ac yn enwedig sut y bydd yn llenwi bylchau a ragwelir yn y cyllid.

#### Yr hyn a ganfuom

8 Mae gan y Cyngor gynllun ariannol tymor canolig sy'n seiliedig ar dybiaethau rhesymol ond mae angen iddo ystyried sut y mae'n mynd i gau ei fwlch ariannu tymor hwy, gan gynnwys cryfhau'r cysylltiadau rhwng ei raglen drawsnewid a'i gynllun ariannol tymor canolig.

9 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor eisoes wedi gwneud arbedion o £220 miliwn dros y 10 mlynedd ddiwethaf ac wedi lleihau ei staff nad ydynt mewn ysgolion o oddeutu 20%.
- roedd cynllun ariannol tymor canolig y Cyngor 2020-21 – 2023-24 y cytunwyd arno ym mis Gorffennaf 2019 yn seiliedig ar dybiaethau rhesymol. Roedd yn nodi bwlch yn y gyllideb o £101m.
- roedd setliad dros dro Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2019 yn nodi, ar gyfer 2020-21, bod y Cyngor yn debygol o gael cynnydd o 4.1% yn hytrach na'r gostyngiad o 0.5% a ragwelwyd yn y cynllun ariannol

tymor canolig. Felly, ar ôl cynnydd tybiedig yn y Dreth Gyngor o 4.5% yn 2020-21, mae angen i'r Cyngor ddod o hyd i arbedion o £9.8 miliwn yn hytrach na'r £18.5 miliwn a ragwelwyd ym mis Gorffennaf 2019. Ym mis Chwefror 2020, fe ddiweddarodd y Cyngor ei gynllun ariannol tymor canolig ar gyfer 2021-22 a'r tu hwnt i adlewyrchu'r setliad mwy cadarnhaol hwn.


- fel y mae adroddiadau'r Cyngor i'r Cabinet ar 19 Rhagfyr 2019 a 20 Chwefror 2020 yn ei argymell, er bod hon yn sefyllfa fwy cadarnhaol, rhaid i'r Cyngor ddefnyddio'r cyfle i gryfhau ei gydnerthedd ariannol a chreu sefyllfa gadarn i symud ymlaen ohoni gan gydnabod yr heriau yn y tymor canolig a hwy.
- mae'r Cyngor yn bwriadu llenwi'r bwlch yn ei gyllideb dros gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig trwy gyfuniad o:
  - arbedion effeithlonrwydd;
  - newid/trawsnewid gwasanaethau;
  - codiadau i ffioedd a thaliadau/cyfleoedd i greu incwm; a
  - chodiadau yn y Dreth Gyngor
- mae ffocws y Cyngor yn bennaf ar fynd i'r afael â'r bwlch yn y gyllideb flynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol ond mae angen iddo benderfynu sut y bydd yn mynd i'r afael â'r bwlch yn y gyllideb dros y tymor canolig a hwy.
- wrth fynd i'r afael â'r bwlch o ran cyllid a nodir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, mae'r Cyngor yn amcanu at barhau i ddarparu ei wasanaethau lle y bo'n bosibl ond mae'n cydnabod y bydd hyn yn dod yn fwyfwy anodd.
- mae'r Cyngor yn cydnabod angen i wneud arbedion effeithlonrwydd sylweddol dros y tymor canolig ond mae'n bwriadu gwneud y mwyafrif o'r arbedion hyn o wasanaethau heblaw addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r Cyngor yn ystyried lleihau'r lefel o arbedion y bydd yn ei cheisio gan yr adrannau addysg a gwasanaethau cymdeithasol mewn blynyddoedd yn y dyfodol oherwydd pwysau cyllid ac anawsterau o ran cyrraedd targedau arbedion blynyddoedd blaenorol. Gan bod y gwasanaethau hyn yn rhoi cyfrif am ddwy ran o dair o gyllideb y Cyngor, bydd yn fwyfwy anodd dod o hyd i'r arbedion cyfwerth o feysydd eraill heb wneud newidiadau sylweddol i'r ffordd y darperir gwasanaethau.
- mae'r Cyngor wedi rhoi ystod o fecanweithiau darparu amgen ar waith ac mae'n parhau i archwilio opsiynau i fynd i'r afael â'r bwlch yn ei gyllideb. Er enghraifft, mae wedi rhoi wyth canolfan hamdden ar gontract allanol ac mae'n trosglwyddo'r cyfrifoldeb am redeg y New Theatre i ddarparwr partner.
- mae'n dal yn aneglur i ba raddau y bydd rhaglen drawsnewid y Cyngor yn cyfrannu at gyflawni'r arbedion gofynnol.
- nid oes gan y Cyngor strategaeth gorfforaethol i greu incwm er ein bod wedi codi hyn fel cynnig ar gyfer gwella yn ein hadroddiad Cynllunio Arbedion a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Mawrth 2017. Nid oes ymagwedd gyson at

ffioedd a thaliadau. Er enghraifft, mae taliadau am rai gwasanaethau wedi aros ar yr un lefel am nifer o flynyddoedd.

- mae'r Cyngor wedi cynnwys rhwymedigaeth wrth gefn ar gyfer treth tirlenwi yn ei ddatganiadau ariannol ers 2017-18. Mae hwn yn fater sy'n dal i rygnu ymlaen gyda Cyllid a Thollau EM ac nid yw maint unrhyw rwymedigaeth bosibl yn hysbys eto. Byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa.

Arddangosyn 4: bwlch o ran cyllid a ragamcanir [ffynonellau – Adroddiad ar gyllideb 2019-20, Adroddiad ar gyllideb 2020-21, Chwefror 2020 a chynllun ariannol tymor canolig y Cyngor 2021-22 – 2024-25, Chwefror 2020]

Mae'r graff canlynol yn dangos y bwlch o ran cyllid a adnabu'r Cyngor ar gyfer eleni, a'r pum mlynedd ganlynol fel a nodir yn ei gynllun ariannol tymor canolig y cytunwyd arno ym mis Chwefror 2020.



## Ar y cyfan, mae'r Cyngor wedi rheoli ei wariant o fewn y gyllideb ond ceir patrwm o orwario mewn rhai meysydd gwasanaeth

## Pam ei bod yn bwysig rhagweld gwariant yn gywir

10 Mae'n bwysig bod gorwariant a thanwariant yn cael eu cadw dan reolaeth a bod gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at y lefelau y cynlluniwyd ar eu cyfer. Mae Cyngor sy'n methu â rhagweld gwariant yn gywir a chynllunio'n gywir ar ei gyfer yn wynebu risg o greu pwysau ariannol nas rhagwelwyd a allai beryglu'r gallu i bennu cyllideb fantoledig. Gall patrymau sylweddol o danwariant fod yn lleihau gallu cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol neu gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

### Yr hyn a ganfuom

11 Ar y cyfan, mae'r Cyngor wedi rheoli ei wariant o fewn y gyllideb ond ceir patrwm o orwario mewn rhai meysydd gwasanaeth. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- ar y cyfan, fe gyflawnodd y Cyngor sefyllfa alldro fantoledig. Fodd bynnag, bu tuedd o orwariant mewn rhai gwasanaethau allweddol: gwasanaethau cymdeithasol, addysg a gwastraff.
- mae'r Cyngor yn dal i weithredu i fynd i'r afael â'r gorwariannau hyn a'u deall, megis ailbennu sail ei gyllidebau gwasanaethau cymdeithasol.

### Arddangosyn 5: swm y gorwariant/tanwariant yn berthynol i gyfanswm y gyllideb refeniw net [ffynonellau – hunanasesiad cynaliadwyedd ariannol y Cyngor, adroddiadau alldro blynyddol ac adroddiad mis 6, 2019]

Mae'r arddangosyn canlynol yn dangos swm y gorwariant neu danwariant ar gyfer cyllideb refeniw net y Cyngor ar y cyfan am y ddwy flynedd ddiwethaf a'r flwyddyn hyd yn hyn ym mis 6, Medi 2019**.**

| | Cyllideb Wreiddiol y gyllideb refeniw net | Alldro Gwirioneddol y gyllideb refeniw net | Swm y gwarged/ gorwariant ar y cyfan | Gwahaniaeth canrannol o'i gymharu â'r gyllideb refeniw net |
|---|---|---|---|---|
| 2017-18 | £586,984m | £586,984m | 0 | 0% |
| 2018-19 | £608,913m | £608,913m | 0 | 0% |
| 2019-20 | £623,589m | £623,803m | Gorwariant o £214,000 | Gorwariant o 0.03% |

## Mae gan y Cyngor hanes o gyflawni'r mwyafrif o'i arbedion ar y cyfan, ond bydd eu cyflawni'n dod yn fwy a mwy o her yn y dyfodol ac mae angen i'r Cyngor gryfhau ei broses cynllunio arbedion

### Pam fod y gallu i adnabod a chyflawni cynlluniau arbedion yn bwysig

12 Mae'r gallu i adnabod meysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol penodol, ac i wneud yr arbedion hynny wedyn, yn agwedd allweddol ar sicrhau cynaliadwyedd ariannol parhaus yn erbyn cefnlen o bwysau ariannol cynyddol. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni gall hyn arwain at orwariannau sy'n golygu bod angen defnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gan gynyddu lefel yr arbedion y mae eu hangen ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol i wneud iawn am hyn. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni a lle mae'n ofynnol i feysydd gwasanaeth wneud arbedion heb eu cynllunio, mae hyn yn cynyddu'r risg naill ai na fydd arbedion yn gyson â blaenoriaethau'r Cyngor, neu o ddatrysiadau 'byrdymor' nad ydynt yn gynaliadwy dros y tymor canolig.

### Yr hyn a ganfuom

13 Mae gan y Cyngor hanes o gyflawni'r mwyafrif o'i arbedion ar y cyfan, ond bydd eu cyflawni'n dod yn fwy a mwy o her yn y dyfodol ac mae angen i'r Cyngor gryfhau ei broses cynllunio arbedion. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae gan y Cyngor hanes o gyflawni'r mwyafrif o'i arbedion ar y cyfan ond mae'n rhagweld na fydd yn cyflawni £6.200 miliwn o arbedion allan o gyfanswm o £19.157 miliwn yn 2019-20.
- Mae tangyflawni arbedion yn thema gyffredin yn y rhan fwyaf o gyfarwyddiaethau. Mae'r ffaith bod y Cyngor wedi llwyddo dros y blynyddoedd diwethaf i fantoli ei sefyllfa alldro ar y cyfan yn deillio o nifer o ffactorau. Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys cyflawni arbedion ychwanegol mewn mannau eraill neu o danwariannau mewn gwasanaethau eraill. Mae'r dull hwn yn annhebygol o fod yn gynaliadwy.
- Mae cadernid cynlluniau arbedion yn dal i fod yn broblem er ein bod wedi codi cynigion cysylltiedig ar gyfer gwella yn ein hadroddiadau blaenorol ar gydnerthedd ariannol. Ar gyfer 2019-20, er enghraifft, roedd tua £3.5 miliwn o arbedion yn dal yn y cam cynllunio ar yr adeg y cytunwyd ar y gyllideb flynyddol. Mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â hyn yn awr trwy sicrhau, o 2020-21 ymlaen, nad oes unrhyw arbedion yn cael eu cynnwys yn y gyllideb oni bai eu bod wedi'u hategu gan gynlluniau arbedion manwl, y craffwyd arnynt ac a heriwyd.
- Nid yw'r Cyngor yn cynnal ymarfer gwersi a ddysgwyd blynyddol sy'n amlygu'r rhesymau allweddol pam nad yw cynlluniau arbedion wedi cael eu cyflawni er mwyn dysgu gwersi a goleuo cynlluniau yn y dyfodol.

Arddangosyn 6: arbedion a gyflawnwyd yn ystod 2018-19 fel canran o arbedion wedi'u cynllunio [ffynhonnell – hunanasesiad cynaliadwyedd ariannol y Cyngor]

Mae'r arddangosyn canlynol yn nodi faint o arian yr oedd y Cyngor yn bwriadu ei arbed trwy arbedion wedi'u cynllunio yn ystod 2018-19 a faint o hyn y gwnaeth ei arbed mewn gwirionedd.

| £14,296m | £10,207m | £4,089m | 71.4% |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr arbedion wedi'u cynllunio | Arbedion wedi'u cynllunio a gyflawnwyd | Arbedion wedi'u cynllunio nas cyflawnwyd | Canran yr arbedion a gyflawnwyd |

## Nid yw'r Cyngor wedi gwneud unrhyw ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i ariannu ei gyllideb refeniw ac mae ei lefel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy wedi cynyddu ar y cyfan dros amser

## Pam ei bod yn bwysig rheoli cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy

14 Mae lefelau iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn rhwyd ddiogelwch bwysig i ategu cynaliadwyedd ariannol. Yn ogystal â bod ar gael i ariannu pwysau annisgwyl o ran cyllid, gall cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fod yn ffynhonnell cyllid bwysig i ariannu mentrau 'buddsoddi i arbed' sydd wedi'u bwriadu i leihau cost barhaus darparu gwasanaethau hefyd. Mae cynghorau sy'n dangos patrwm o ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i lenwi bylchau yn eu cyllideb refeniw sy'n arwain at ostyngiadau ym malansau eu cronfeydd wrth gefn yn lleihau eu cydnerthedd i ariannu pwysau cyllidebol nas rhagwelwyd mewn blynyddoedd yn y dyfodol.

### Yr hyn a ganfuom

15 Nid yw'r Cyngor wedi gwneud unrhyw ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i ariannu ei gyllideb refeniw ac mae ei lefel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy wedi cynyddu ar y cyfan dros amser. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae lefel y Cyngor o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy (sy'n cynnwys cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi) wedi cynyddu trwy gydol y cyfnod o 2014-15 (£57.579 miliwn) i 2018-19 (£85.935 miliwn).
- mae cronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor wedi aros yn llonydd ar ryw £14.25 miliwn ers 31 Mawrth 2017.
- mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dull cymharol ddarbodus o reoli ei gronfeydd wrth gefn. Mae ganddo nifer o gyllidebau hapddigwyddiadau a chronfeydd wrth gefn strategol wedi'u clustnodi, megis Cronfa Wrth Gefn Strategol y Gyllideb, Mecanwaith Cydnerthedd Ariannol, Cyllideb

Hapddigwyddiadau Gyffredinol a chronfa wrth gefn plant sy'n derbyn gofal. Mae'r rhain yn rhoi opsiynau i'r Cyngor ar gyfer ymateb i bwysau cyllidebol.

- mae'r Cyngor wedi defnyddio'i gronfeydd wrth gefn mewn ffordd wedi'i chynllunio i'w helpu i fantoli ei gyllideb ac mae'n bwriadu defnyddio £5.75 miliwn o Gronfa Wrth Gefn Strategol y Gyllideb i gefnogi'r gyllideb dros y cyfnod.


Arddangosyn 7: swm y cronfeydd wrth gefn o'i gymharu â'r gyllideb flynyddol, 2018-19
[Ffynhonnell: Y fantolen ar 31 Mawrth 2019]

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd gan y Cyngor yn ystod 2018-19 o'i gymharu â'i gyllideb refeniw net ar gyfer yr un flwyddyn.



**£608,913m**

Cyllideb Refeniw Net



**£85.935m**

Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy



**14.11%**

Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy fel canran o'r Gyllideb Refeniw Net

## Mae cyfraddau casglu'r dreth gyngor wedi gwella ar y cyfan dros y blynyddoedd diwethaf

### Pam fod cyfraddau casglu'r dreth gyngor yn bwysig

16 Bydd methu â chasglu swm y dreth gyngor sy'n ddyledus i'r Cyngor yn arwain at lai o incwm. Gall hyn yn ei dro gynyddu'r pwysau ariannol ar y Cyngor a'i gwneud yn ofynnol iddo wneud arbedion ychwanegol. Er nad y dreth gyngor yw'r ffynhonnell cyllid fwyaf ar gyfer cynghorau yng Nghymru, mae'n dal i fod yn ffynhonnell incwm allweddol.

### Yr hyn a ganfuom

17 Mae cyfraddau casglu'r dreth gyngor wedi gwella ar y cyfan dros y blynyddoedd diwethaf. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Mae cyfrifon y dreth gyngor fel cyfran o gyllid y Cyngor yn flynyddol wedi cynyddu dros amser – o 14.7% yn 2017-18 i 16% yn 2019-20.
- Mae cyfraddau casglu'r dreth gyngor wedi bod rhwng 97% a 97.7% dros y pum mlynedd ddiwethaf, a hwythau wedi cynyddu o 94.5% yn 2010-11.

Arddangosyn 8: cyfraddau casglu'r dreth gyngor [ffynhonnell: StatsCymru]

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos y ganran o'r dreth gyngor a oedd yn ddyledus a gasglwyd gan y Cyngor yn ystod 2018-19



Roedd yr arian a gasglwyd o'r Dreth Gyngor ar 31 Mawrth 2019 yn **£168.455m** ([97.4%]) o'i gymharu â debyd casgladwy o **£172.908m**

## Mae statws prifddinas y Cyngor a'i raglen gyfalaf fawr yn golygu bod ganddo lefel gymharol uchel o fenthyciadau

## Pam ei bod yn bwysig cynnal lefelau benthyca cynaliadwy

18 Gall benthyca fod yn ffynhonnell cyllid werthfawr, er enghraifft i ariannu prosiectau cyfalaf ar raddfa fawr megis ysgolion neu ganolfannau hamdden newydd. Fodd bynnag, gall cost ad-dalu arian a fenthyciwyd gan gynnwys costau llog gael effaith hirdymor ar gyllidebau refeniw parhaus. Mae cynghorau sy'n methu â tharo cydbwysedd priodol rhwng manteision a chostau benthyca ar y naill law a'u cyllidebau refeniw cyfredol a rhagamcanol ar y llaw arall yn wynebu risg o leihau swm y cyllid sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau. Mae benthyca i ariannu gweithgarwch masnachol yn cynnig y potensial i greu incwm ychwanegol i ariannu gwasanaethau'r cyngor; fodd bynnag, gall hefyd ddwyn risgiau sylweddol a fyddai'n gysylltiedig ag unrhyw weithgarwch masnachol.

### Yr hyn a ganfuom

19 Roedd cyfanswm benthyciadau'r Cyngor ar 31 Mawrth 2019 yn £731m. Mae cyfanswm benthyciadau wedi cynyddu tua 8% ers 2016 (31 Mawrth 2016 £676 miliwn). Gan y Cyngor y mae'r cyfanswm benthyciadau uchaf yng Nghymru, ond nid yw hyn yn annisgwyl o ystyried statws prifddinas y Cyngor, ei raglen gyfalaf sylweddol a'r ffaith ei fod wedi cadw ei stoc dai.

20 Mae benthyciadau'r Cyngor yn cynnwys benthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus a benthyciadau Opsiwn Rhoddwr Benthyciadau Opsiwn Cymerwr Benthyciadau (LOBOs) yn bennaf - £669 miliwn a £52 miliwn yn y drefn honno ar 31 Mawrth 2019.


21 Lefel benthyciadau Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus y Cyngor yw'r uchaf yng Nghymru a lefel ei fenthyciadau LOBO yw'r 4edd uchaf yng Nghymru.

22 Mae’r Cyngor wedi prynu eiddo masnachol yn ddiweddar fel rhan o’i gynllun i ddatblygu arena dan do newydd y bydd angen benthyciad ychwanegol ar ei gyfer.

23 Roedd taliadau llog a thaliadau tebyg a oedd yn daladwy ar fenthyciadau’r Cyngor yn gyfanswm o £32.176 miliwn yn 2018-19 a oedd yn 5.3% o gyllideb Refeniw Net y Cyngor yn 2018-19.

Arddangosyn 9: Arian a fenthyciwyd gan y Cyngor [ffynhonnell: datganiad cyfrifon 2018-19]

Mae’r arddangosyn isod yn dangos cost yr holl fenthyciadau sydd gan y Cyngor fel cyfran o’i gyllideb refeniw net.



**5.28%**

Cost cyfanswm y benthyciadau fel cyfran o’r gyllideb refeniw net 2018-19

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru